



## **ADLEOLI**



## CYNNWYS

---

1.	Cyflwyniad.....	1
2.	Adleoli'r Prif Weithredwr.....	1
3.	Meini prawf costau adleoli .....	1
4.	Y Cynllun Adleoli.....	1
5.	Lwfans Costau Adleoli i staff newydd .....	5
6.	Dehongliad.....	5
	Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg.....	6

## 1. CYFLWYNIAD

- 1.1 Cynhyrchwyd y canllawiau a ganlyn i gynorthwyo cyflogeion Tribiwnlys Prasio Cymru ddeall y cymorth adleoli y gallent fod â'r hawl iddo lle'r hysbyswyd yr unigolyn yn ysgrifenedig y byddai pecyn adleoli ar gael iddynt un ai oherwydd newid lleoliad gwaith neu gynnig cyflogaeth gyda'r Gwasanaeth Tribiwnlys Prasio.

## 2. ADLEOLI'R PRIF WEITHREDWR

- 2.1 Mewn achos pan mai'r unigolyn sy'n adleoli yw'r Prif Weithredwr, bydd unrhyw dasg neu benderfyniad sy'n ofynnol gan y Prif Weithredwr yn y paragraffau isod yn cael ei gyflawni gan Gyngor Llywodraethu Tribiwnlys Prasio Cymru.

## 3. MEINI PRAWF COSTAU ADLEOLI

- 3.1 Mae Tribiwnlys Prasio Cymru yn gyfrifol am gyfiawnhau'r costau a hawliwyd gan gyflogai i'r adran sy'n nodd. Felly mae'n rhaid i Tribiwnlys Prasio Cymru sicrhau'r canlynol:

- Ei bod yn angenrheidiol i'r cyflogai symud i fyw, a bydd y cyflogai yn byw o fewn pellter teithio rhesymol i'r man gwaith newydd.
- Bod y cyflogai yn gofyn am gymeradwyaeth gan y Prif Weithredwr cyn ymrwymo i unrhyw gostau, a bod y cyflogai'n deall cyfyngiadau'r cymorth sydd ar gael.
- Bod y cyflogai'n gwybod bod rhaid cyflwyno biliau gwreiddiol, a chael o leiaf tri dyfynbris lle bo'n berthnasol e.e. ar gyfer cludo eiddo personol.
- Bod y costau sy'n cael eu hawlio yn rhesymol.
- Bod y biliau i'w had-dalu yn cael eu cyflwyno cyn pen 12 mis o ddyddiad penodi'r cyflogai.
- Bod y cyflogai wedi llofnodi'r ymrwymiad yn cytuno i ad-dalu peth neu'r cyfan o'r costau pe bai'n gadael Tribiwnlys Prasio Cymru cyn pen dwy flynedd o adeg yr adleoli.

## 4. Y CYNLLUN ADLEOLI

Mae gan gyflogeion yr hawl i gymorth os oes rhaid iddyn nhw symud i fyw yn dilyn adleoli eu gweithle. Nid yw'r hawl hwn yn berthnasol i benodiad cyflogai i swydd newydd neu amgen yr ymgeisiodd y cyflogai amdani a chael ei chynnig trwy'r broses recriwtio arferol, ac eithrio lle bo hyn wedi'i fynegi i'r cyflogai yn ysgrifenedig gyda'r cynnig cyflogaeth.

Mae'r cymorth tuag at adleoli wedi'i bennu ar uchafswm cyfredol o £8,000 ac mae'n unol â chanllawiau Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi ac wedi'i eithrio rhag treth. Mae'r swm yn cwmpasu'r pecyn adleoli cyfan, a gall gynnwys y cyfan neu unrhyw elfen o'r costau a buddion isod:

- Costau adleoli
- Costau cludo nwyddau
- Costau llety
- Ffioedd cyfreithiol a ffioedd eraill
- Lwfans tarfu
- Lwfans caledi eithriadol

Rhaid i gyflogeion sicrhau nad yw cyfanswm y costau cymwys sy'n cael eu hawlio yn goresgyn yr uchafswm o £8,000, gan na fydd unrhyw swm sy'n goresgyn y terfyn hwn yn cael ei dalu gan Dribiwnlys Prisiao Cymru. Ni ddylid darllen unrhyw un o'r adrannau isod fel rhai sy'n galluogi'r cyfanswm a hawlir i oresgyn £8,000. Rhaid i'r holl gostau sy'n cael eu hawlio gael eu cefnogi gan dystiolaeth glir o wariant gwirioneddol.

#### 4.1 Lwfans Costau Adleoli

Yn arferol bydd y lwfans hwn yn daladwy i gyflogeion sy'n symud i gartref sydd 20 milltir neu lai o'u gweithle newydd ac o leiaf 25 milltir o'u cartref(i) blaenorol.

Mae'r lwfans yn cynnwys yr eitemau gwarant a ganlyn –

- Lle bo'n angenrheidiol i gyflogai ymweld ag ardal eu cyflogaeth newydd i ddod o hyd i lety, gall Tribiwnlys Prisiao Cymru bryd hynny ganiatáu hyd at uchafswm o dridiau o absenoldeb â thâl lle bo angen, a
- Cost tocyn trên ail ddsbarth neu'r gyfradd gyfredol lwfans milltiroedd teithio mewn car ar gyfer y cyflogai a phriod neu berthynas dibynnol gyda nhw.

#### 4.2 Costau cludo nwyddau ac absenoldeb

Bydd cyflogai sy'n symud oherwydd ad-drefnu yn cael ad-daliad y costau isod a dalwyd gan y cyflogai:

- Costau cludo dodrefn ac eiddo o'r hen gartref i'r cartref newydd, yn cynnwys yswirio'r nwyddau ar gyfer y cyfnod cludo. Bydd yr ad-daliad yn hafal i swm yr isaf o ddau dendr cystadleuol. Gall y cyflogai

ddefnyddio gwasanaethau'r contractwr drutaf os yw'n dymuno, ond rhaid i'r cyflogai dalu'r gwahaniaeth yn y gost rhwng bil y contractwr a ddewiswyd a'r tendr isaf.

- Telir costau teithio a lwfans cynhaliath i'r cyflogai a'i ddibynyddion o'r hen gartref i'r cartref newydd ar gyfraddau cludiant cyhoeddus (ail ddsbarth os yn teithio ar y trên) neu'r costau teithio mewn car arferol i'r teulu cyfan, pa bynnag un a ddefnyddir.
- Unrhyw gostau angenrheidiol storio dodrefn ac eiddo am gyfnod o ddim mwy na 12 mis, lle nad yw'n bosibl symud yn barhaol ar unwaith. Bydd yr ad-daliad yn halal i'r isaf o ddau dendr cystadleuol. Fodd bynnag, gallai'r cyflogai ddefnyddio'r contractwr drutaf os yw'n dymuno, trwy dalu am y gwahaniaeth rhwng y cost drutach a'r tendr isaf ei hun.

Bydd Tribiwnlys Prasio Cymru hefyd yn caniatâu deuddydd o absenoldeb â thâl i gyflogeion sy'n symud i fyw oherwydd ad-drefnu.

#### 4.3 Lwfans llety

Lwfans llety yw cymorth dros dro a delir i gyflogai nad yw'n medru adleoli ei deulu i bellter rhesymol o agos at ei leoliad cyflogaeth newydd ac sydd angen bod mewn llety dros dro er mwyn cyflawni ei swydd yn y gweithle newydd. Dan amgylchiadau o'r fath bydd Tribiwnlys Prasio Cymru yn caniatâu'r lwfansau a ganlyn:

- Am yr wyth wythnos gyntaf costau llety gwely a brecwast y cytunwyd arno ac a gymeradwywyd yn ysgrifenedig gan Brif Weithredwr Tribiwnlys Prasio Cymru; ynghyd ag, am bob noson y mae'n rhaid ei dreulio mewn llety dros dro, taliad am bryd nos fel a ganiateir dan bolisi treuliau staff Tribiwnlys Prasio Cymru.
- Wedi hynny, am gyfnod nad yw'n goresgyn 31 wythnos, taliadau lwfans dros nos yn unol â'r polisi treuliau staff.

Dan amgylchiadau eithriadol (er enghraifft, lle bo trefniant i brynu tŷ wedi chwalu) caiff y Prif Weithredwr ymestyn y cyfnod 31 wythnos y cyfeirir ato uchod.

#### 4.4 Ffioedd cyfreithiol a ffioedd eraill

Gellir ad-dalu ffioedd cyfreithiol a ffioedd eraill sy'n gysylltiedig â gwerthu'r cartref gwreiddiol a phrynu cartref newydd, yn cynnwys unrhyw ymdrech *bona fide* aflwyddiannus i brynu cartref newydd, yn unol â'r amgylchiadau a nodir isod:

- Bydd cyflogai sy'n gorfod gwerthu ei breswylfa oherwydd ad-drefnu yn cael ei ad-dalu am ffioedd cyfreithiol, ffioedd gwerthwr tai a ffioedd talu morgais sy'n codi o ganlyniad i werthu'r cartref.
- Bydd cyflogai sydd wedi gwerthu ei gartref neu derfynu ei denantiaeth oherwydd ad-drefnu ac yn prynu preswylfa arall yn cael ei ad-dalu am y ffioedd cyfreithiol (yn cynnwys treth stamp), ffioedd trefnu morgais newydd a ffioedd arolwg gan syrfeiwyr.
- Os na ddefnyddiwr gwerthwr tai neu gwmni ocsiwn, ad-delir y cyflogai am gostau hysbysebu'r eiddo ar werth yn dilyn cyflwyno derbynebaw perthnasol.
- Yn achos tenantiaeth bydd y cyflogai yn cael ei ad-dalu am y gwir gostau a dalwyd.

#### 4.5 Lwfans Tarfu

Mae yna nifer o ffyrdd eraill y gallai'r cyflogai'n symud i fyw oherwydd ad-drefnu greu gwariant ychwanegol. Gellir rhannu'r rhain yn ddau gategori:

- Treuliau'n gysylltiedig â symud cartref (addasu neu adnewyddu llenni, gosodiadau a ffitiadau, gosod gorchudd llawr newydd, newid neu osod eitemau trydanol ac ati)
- Colledion yn gysylltiedig â ffioedd ysgol, tocyn teithio tymor ac ati.

Gallai Tribiwnlys Prasio Cymru roi lwfans tarfu yng nghyswllt eitemau o'r fath ar gais ysgrifenedig gan y cyflogai i hawlio'r lwfans. Rhaid i unrhyw gais gael ei gefnogi gan dystiolaeth y gwariant sy'n cael ei hawlio. Bydd y Prif Weithredwr yn penderfynu, yn ôl ei ddoethineb absoliwt, p'un ai y gellir cyfiawnhau'r hawliad ai peidio, a bydd yn awdurdodi'r taliad.

#### 4.6 Lwfans Caledi Eithriadol

Mae'r lwfans hwn yn galluogi gwneud taliadau o ran unrhyw beth sy'n achosi caledi eithriadol yn gysylltiedig ag adleoli, ac sy'n cynrychioli costau rhesymol a ddaeth i ran y cyflogai. Yn bennaf mae'n galluogi ystyried yr isod:

- Estyniad y cyfnod Costau Teithio Ychwanegol.
- Eifen o iawndal os yw'r cyflogai'n gorfod symud o ardal lle mae prisiau tai neu rhenti tai yn is i ardal lle maen nhw'n arwyddocaol uwch, yn amodol ar ddarparu tystiolaeth i gefnogi hynny.
- Rhoi Lwfans Llety i gyflogai sy'n sengl.
- Costau teithio adref ar y penwythnos i gyflogai mewn llety dros dro, sydd wedi gorfod gadael eu teulu yn eu hen gartref.

#### 5. **LWFANS COSTAU ADLEOLI I STAFF NEWYDD**

Gellir rhoi cymorth hyd at uchafswm o £8,000 i gwmpasu'r holl eitemau a ganlyn. Mae'r rhain yn debyg, ond ddim bob amser yr un fath â'r rhai ar gyfer staff sy'n bodoli eisoes.

- Lwfans Llety – cymorth gyda chostau llety dros dro'r aelod staff newydd tra'n chwilio am le i fyw'n barhaol, yn ddarostyngedig i uchafswm o 30 noson o lwfans cynhaliath a ganiateir dan y polisi treuliau staff.
- Costau teithio adref ar y penwythnos – i aelod staff newydd sy'n derbyn lwfans llety, sydd wedi gorfod gadael dibynnydd yn yr hen gartref.
- Costau cludo dodrefn – costau symud yr aelod staff newydd, ei deulu a'i eiddo i gartref newydd.
- Ffioedd cyfreithiol a ffioedd eraill.

#### 6. **DEHONGLIAD**

Nod y Polisi a'r Gweithdrefnau hyn yw darparu arweiniad cryno i staff ynghylch y cymorth adleoli y gallent fod â'r hawl i'w dderbyn. Fodd bynnag, os yw unrhyw ddarpariaethau yn aneglur, dylid gofyn am ragor o gyngor ac arweiniad gan y Prif Weithredwr.

## ASESIAD O'R EFFAITH AR Y GYMRAEG

Mae Cyngor Llywodraethu Tribiwnlys Prasio Cymru wedi ystyried y cwestiynau isod ac wedi ymateb fel a ganlyn wrth ddiwygio'r polisi hwn ar ...:

- A. A yw'r polisi hwn yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol neu niweidiol ar — (a) y cyfleoedd i unigolion ddefnyddio'r Gymraeg, a (b) trin y Gymraeg mewn modd nad yw'n llai ffafriol na'r Saesneg?

Ymateb:	O ran y Gymraeg mae'r polisi hwn yn creu ...	
	...effeithiau cadarnhaol	...effeithiau niweidiol
(a) Cyfleoedd	<b>Na</b>	<b>Na</b>
(b) Triniaeth	<b>Na</b>	<b>Na</b>

- B. Wrth ddatblygu'r polisi hwn a ydym ni wedi ystyried sut y medrwn ni ei lunio neu ei newid yn y fath fodd y bydd yn cael effeithiau cadarnhaol neu gynyddu'r effeithiau cadarnhaol ar — (a) cyfleoedd i unigolion ddefnyddio'r Gymraeg, a (b) trin y Gymraeg mewn modd nad yw'n llai ffafriol na'r Saesneg?

Ymateb:	Yn ystod datblygu'r polisi a roddwyd ystyriaeth i ...	
	...effeithiau cadarnhaol	...cynyddu'r effeithiau cadarnhaol
(a) Cyfleoedd	<b>Do</b>	<b>Do</b>
(b) Triniaeth	<b>Do</b>	<b>Do</b>

- C. Wrth ddatblygu'r polisi hwn a ydym ni wedi ystyried sut y medrwn ni ei lunio neu ei newid yn y fath fodd fel na fydd y polisi'n cael effeithiau niweidiol, neu lai o effeithiau niweidiol ar — (a) cyfleoedd i unigolion ddefnyddio'r Gymraeg, a (b) trin y Gymraeg mewn modd nad yw'n llai ffafriol na'r Saesneg?

Ymateb:	Yn ystod datblygu'r polisi a roddwyd ystyriaeth i ...	
	... effeithiau niweidiol	... lleihau'r effeithiau niweidiol
(a) Cyfleoedd	<b>Do</b>	<b>Do</b>
(b) Triniaeth	<b>Do</b>	<b>Do</b>